cymorth cristnogol

RHOWCH FI I'CH GWEINIDOG, OS GWELWCH YN DDA.

Rhoddwyd gobaith i ni

Defnyddiwn ef i adeiladu.

Rhowch yn hael. A dewch â theulu ynghyd unwaith eto y Nadolig hwn.

Rhif elusen gofrestredig y DG 1105851 Rhif cwmni 5171525

Canys bachgen a aned i ni

Gobaith anrhaethadwy a roed i ni – llewyrch golau mewn gwlad o gaddug dudew; Tywysog Tangnefedd; un sy'n ceisio cyfiawnder i'r tlawd, y gwan a'r briwedig.*

Mae'r Nadolig yn adeg i gofio'r gobaith a roed i ni. Daeth Crist i'n plith i adeiladu teyrnas newydd.

Beth fydd eich eglwys yn adeiladu'r Nadolig hwn?

*addasiad o Eseia 9

Tair gwraig yn gwenu yn nrws cartref newydd ei adeiladu – mae'r pentrefwyr yn Kuala Bubon, Indonesia, yn cyfeirio atynt fel 'y dair mam'.

Cymorth Cristnogol/ Tom Pilston

Nuryiani (de gwaelod), Husana a Yusinta – teulu o famau yn cael eu cadw ynghyd gan obaith.

Chwalwyd eu byd gan tsunami Dydd San Steffan 2004. Mae Nuriyani yn ei gofio megis ddoe: 'Wnes i lewygu mewn braw o weld y fath ddifrod.' Mae ei ffrindiau yn ei chael yn fwy anodd i siarad am eu colledion.

Gwaethygodd pethau pan wrthododd y llywodraeth rhoi caniatâd i'r pentref gael ei ail-adeiladu yn yr un man rhag ofn bod trychinebau yn y dyfodol. Roedd teuluoedd y pentref yn wynebu cael eu gwahanu: dim cartrefi; dim tir; dim bywoliaeth a diwedd ar eu ffordd o fyw am genedlaethau.

Ond yn ôl Nuriyani, 'Wnaethom ni byth rhoi'r gorau i obeithio. Kuala Bubon oedd ein cartref ni.' Helpwyd y mamau gan bartner Cymorth Cristnogol, YEU, a gynlluniodd dai ar bileri concrid wedi'u cyfnerthi fel eu bod yn saff iddynt ddychwelyd.

Bob dydd am flwyddyn, aeth Nuriyani, Husana a Yusinta i weld y swyddogion. O'r diwedd, gwireddwyd eu gobeithion. Gallai YEU ail-adeiladu eu tai; fe gai'r teuluoedd ddychwelyd – gyda'i gilydd.

Heddiw mae'r dair mam yn eu cartref newydd yn edrych ar y teulu estynedig a gadwyd gyda'i gilydd. Medd Husana 'roedd pobl yn chwerthin amdanom ni, famau. Credant na allem ni wneud gwahaniaeth!'

Gall pobl ddweud na allwn ni wneud gwahaniaeth. Ond dyw hynny ddim yn wir. Gallwn gefnogi teuluoedd i ail-adeiladu; dod â hwy at ei gilydd a pharatoi cymunedau'n well ar gyfer trychinebau. Gyda'n gilydd fe allwn adeiladu teyrnas obeithiol Iesu o gyfiawnder a heddwch.

Peidiwch ag anghofio Present Aid

Mae prynu anrhegion ymarferol o'n catalog rhoddion yn ffordd arall i'ch eglwys helpu.

Ffoniwch 029 2084 4646 er mwyn archebu copïau i'ch cynulleidfa.

Cefnogwch Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol i helpu teuluoedd mewn cymunedau tlawd.

- **Archebwch** amlenni rhodd cymorth am ddim a blychau gweddi Nadolig i bawb yn eich eglwys. **Ffoniwch 029 2084 4646** neu **ymweld â www.christianaid.org.uk/christmas**
- **Dangoswch** y poster ar gefn y daflen hon.
- **Defnyddiwch** y myfyrdod 'Canys bachgen a aned i ni' (cyferbyn) a'r weddi yn eich gwasanaeth.
- **Lawr-lwythwch** ein ffilm fer. Ar gael am ddim ar www.christianaid.org.uk/christmas
- **Dychwelwch** unrhyw arian a datganiadau rhodd cymorth i Swyddfa Caerdydd.
- **Diolch!**

Os oes gennych fwy o amser yn eich gwasanaeth, ewch i **www.christianaid.org.uk/christmas** i lawr-lwytho nodiadau pregeth, sgwrs ar gyfer pob oed a mwy o wybodaeth am YEU, Indonesia ac ymateb Cymorth Cristnogol i'r tsunami.

Gall £65 brynu deunydd gwneud to all wrthsefyll stormydd i adeilad yn India

Gall £330 dalu am drosglwyddydd radio i rybuddio cymuned yn Guatemala am lifogydd all peryglu bywydau

Gall £141 brynu tair storfa rawn seliedig i fwydo teuluoedd yn dilyn sychder neu stormydd yn Honduras

Dyma ein rhodd

Teitl _____ Enw blaen _____

Cyfenw _____

Cyfeiriad _____

_____ Côd post _____

Enw'r eglwys _____

Safle (os yn berthnasol) _____

Enwad/rhwydwaith _____

Yn amgaëedig mae siec am £ _____
(taledig i Cymorth Cristnogol)

Yn amgaëedig y mae _____ amlenni Rhodd Cymorth.

Ni fydd Cymorth Cristnogol yn rhoi eich manylion i unrhyw fudiadau eraill. Os ydych yn derbyn gwybodaeth oddi wrth Cymorth Cristnogol, byddwch yn parhau i'w derbyn hyd nes i chwi ein hysbysu yn wahanol trwy ysgrifennu at y cyfeiriad ar y dde. Os mai dyma'ch cysylltiad cyntaf â Cymorth Cristnogol, ticiwch y blwch yma os nad ydych am dderbyn gwybodaeth gennym. ☐

Dychwelwch y ffurflen hon (neu lungopi) ynghyd â'ch cyfraniadau:

Apêl Nadolig
Cymorth Cristnogol
Rhadbost SWC3361
Caerdydd
CF15 8ZD

A005625

Gweddi o obaith

Dad Tragwyddol,
diolch am dy rodd o obaith;
y rhodd anhraethadwy o'th Fab.

Cynghorwr Rhyfeddol,
llewyrched dy oleuni eto'r Nadolig hwn
Dysg ni i geisio heddwch a chyfiawnder.

Tywysog Tangnefedd,
helpa ni i adeiladu dy deyrnas,
er mwyn y tlawd, y gwan a'r briwedig.

Amen.